

SUT I GWBLHAU'R DUDALEN GWYBODAETH 'MWY NA CHLWB'

Mae'r dudalen gwybodaeth 'Mwy na Chlwb' wedi'i datblygu i'ch helpu chi i nodi asedau eich clwb a chyfathrebu'n hawdd ag aelodau, rhanddeiliaid a grwpiau newydd a phresennol, gan eu galluogi i ddysgu mwy am eich clwb.

Nid yn unig y gall y dudalen gwybodaeth fod yn ffordd wych o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch aelodau presennol am gynnydd a datblygiad y clybiau, ond gall hefyd fod yn adnodd hyrwyddo, gan arddangos i bartneriaid, sefydliadau ac unigolion newydd pwy ydych chi, ac yn bwysicach, pa rôl rydych chi'n ei chwarae yn y gymuned.

Edrychwch ar ein canllaw ar ['Adnabod asedau eich clwb'](#) i'ch helpu i adnabod eich cryfderau.



BETH YW'R Ffordd ORAU O LENWI'R FFEITHLUN YMA?

Ceir amlinelliad isod o'r themâu sy'n rhan o'r dudalen gwybodaeth ond yn bwysicach pam eu bod wedi'u cynnwys. Bydd deall y rhesymeg y tu ôl i bob thema yn eich helpu i ychwanegu'r wybodaeth fwyaf addas am y clwb.

1. Ein cenhadaeth

Bydd cyfleu eich diben a'r hyn rydych yn ceisio'i gyflawni yn galluogi cysylltiadau mwy ystyrion ag unigolion, grwpiau a sefydliadau. Os oes diddordeb neu uchelgais cyffredin, mae'r siawns o greu cysylltiad ystyrion yn fwy.

2. Ein rôl yn y gymuned

Bydd rhannu'r hyn rydych chi'n ei gredu yw rôl y clwb yn y gymuned yn helpu eraill i weld eich bod yn fwy na dim ond clwb pêl droed. Gall y clwb gyfrannu'n gadarnhaol at uchelgeisiau'r cynghorau lleol i sicrhau cymuned lanach neu amgylchedd iachach, neu gall gynnig lle i grwpiau cymunedol eraill dyfu a ffynnu. Beth bynnag yw eich rôl, mae'n bwysig cydnabod hyn a'i rannu'n ehangach.

3. Ein haelodau

Mae arddangos pwy ydych chi'n ei gefnogi a'i ddatblygu bob tymor yn bwysig. Dim ond rhan o'r stori mae rhifau'n ei hadrodd, ond mae'n ffordd dda o ddangos eich cyrhaeddiad. Cofiwch, nid yw'r adran hon yn ymwneud â chael y niferoedd mwyaf, mae yma i'ch annog chi i ddangos pwy ydych chi'n ei gefnogi.

4. Sgiliau gorau ar y cyd ein haelodau

Bydd cyflwyno galluoedd aelodau eich clwb yn dangos nid yn unig yr asedau sydd gennych chi yn eich clwb ond hefyd yr hyn sydd yn y gymuned leol. Cofiwch fod ymgysylltu â'r gymuned yn weithred dwy ffordd, gall eich cryfderau fod o ddiddordeb i grwpiau a sefydliadau cymunedol eraill yn gyntaf, a allai yn ei dro agor y drws i sgysiau neu gyfleoedd a allai wedyn gefnogi'r clwb yn uniongyrchol.

5. Ein prif gryfderau fel clwb

Mae rhoi cyfle i unigolion chwarae, cefnogi a gwyllo'r gêm yn un o gryfderau'r clwb ond mae'n un amlwg. Yma cewch gyfle i nodi pa gryfderau eraill sydd gan y clwb y tu allan i bêl droed.

6. Grwpiau cymunedol ac unigolion rydym yn ymwneud â hwy eisoes

Mae dangos pwy ydych yn ymwneud â hwy eisoes /wedi ymwneud â hwy yn y gymuned leol yn dangos y gallwch weithio gyda sefydliadau eraill. Gall hefyd ddangos y mathau o sefydliadau y mae eich clwb yn cysylltu'n dda â hwy ac o bosibl yn rhannu uchelgeisiau tebyg. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn ymwneud ag unrhyw grwpiau eto. Byddwch yn onest yn yr adran hon a nodi efallai pam eich bod yn awyddus i newid hyn nawr.

7. Cysylltwch â ni heddiw

Mae cael cyswllt cyfredol y gall unigolion, sefydliadau a grwpiau gysylltu ag ef i drafod cryfderau eich clwb yn allweddol.



PA ADNODDAU ERAILL Y GALLWN EU DEFNYDDIO?

Efallai y bydd gan glybiau rywfaint o wybodaeth eisoes i'r cwestiynau a ofynnir, mewn dogfennau fel y cyfansoddiad neu gynlluniau datblygu'r clwb. Gall rhannau eraill fod ar wefan y clwb neu blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Os nad oes gennych chi atebion neu wybodaeth, mae'n amser gwych i ddod â'ch pwyllgor at ei gilydd a thrafod rhai o'r bylchau a phenderfynu sut rydych chi am weithio ar eu llenwi ar y cyd.

Os cewch eich annog i ychwanegu data, bydd system adrodd COMET yn gallu eich helpu i echdynnu data a'u hychwanegu at y ddogfen. Efallai y bydd gennych eich data a'ch gwybodaeth eich hun hyd yn oed yr ydych am eu cynnwys, ystyriwch bopeth wrth geisio dangos yr hyn rydych chi'n ei wneud fel clwb.

SUT GALLWN NI RANNU'R FFEITHLUN YMA?

Yn gyntaf, mae'n bwysig penderfynu i bwy rydych chi eisiau i'r wybodaeth hon fod yn berthnasol. Efallai eich bod wedi adnabod unigolion, sefydliadau neu grwpiau sydd â'r un genhadaeth neu weledigaeth â chi, neu un debyg.

Efallai eich bod wedi gweld ceisiadau wedi'u targedu gan unigolion, sefydliadau neu grwpiau sydd eisiau gweithio'n agosach gyda grwpiau gwirfoddol neu chwaraeon.

Bydd gwybod gyda phwy rydych chi eisiau rhannu'r ffeithlun yn eich helpu i fod yn benodol yn y ffordd rydych chi'n ei rannu. Ceir ychydig o awgrymiadau isod ble byddai modd rhannu hyn;

- Platfform cyfryngau cymdeithasol cymunedol lleol
- Platfform cyfryngau cymdeithasol y clwb
- Cylchlythyrau cymunedol
- Argraffu a'i roi ar hysbysfwrdd cymunedol
- Siarad ar orsaf / sioe radio leol
- Erthygl yn y papur lleol
- Hysbyseb ar faneri, arwyddion ac ati.
- Gwybodaeth wedi'i hymgorffori mewn llofnodion e-bost
- Gwybodaeth wedi'i hychwanegu at nwyddau y gellir eu rhannu mewn digwyddiadau, sesiynau rhwydweithio ac ati.

Cofiwch

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn cymryd amser ac ymroddiad. Fel arfer, mae'r math yma o weithgarwch y tu allan i gylch gwaith rhedeg y clwb 'o ddydd i ddydd', felly cofiwch y gall cynnydd gymryd ychydig yn hirach ac mae amynedd yn allweddol.

